# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5372

# 178

## Enwebu Prif Weinidog o dan Reol Sefydlog 8.

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gwahoddodd y Llywydd enwebiadau ar gyfer penodi Prif Weinidog yn unol â Rheol Sefydlog 8.2.

Cafodd Mark Drakedord ei enwebu gan Carwyn Jones.

Cafodd Paul Davies ei enwebu gan Janet Finch-Saunders.

Cafodd Adam Price ei enwebu gan Rhun ap Iorwerth.

Gan fod tri enwebiad, cynhaliwyd pleidlais drwy alw cofrestr yr Aelodau. Gwahoddodd y Llywydd bob Aelod a oedd yn bresennol i bleidleisio dros ymgeisydd. Cafodd yr Aelodau eu galw yn nhrefn yr wyddor. Yn unol â Rheol Sefydlog 8.2, ni chaniatawyd i'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd bleidleisio.

Canlyniad y bleidlais oedd:

| Mark Drakeford | Adam Price | Paul Davies | Ymatal | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 30 | 9 | 12 | 5 | 56 |

[gweler y crynodeb o'r pleidleisiau i gael y canlyniad llawn]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

Gan fod Mark Drakeford wedi cael dros hanner y pleidleisiau, cyhoeddodd y Llywydd ei fod wedi ei enwebu i'w benodi'n Brif Weinidog y Cynulliad, ac y byddai hi, yn unol ag Adran 47(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn argymell i'w Mawrhydi y Frenhines benodi Mark Drakeford yn Brif Weinidog Cymru. Gwahoddodd y Llywydd Mark Drakeford i gyfarch y Cynulliad.

## 1 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 13.46

Gofynnwyd yr un cwestiwn.

## 2 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 13.52

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y contract sector cyhoeddus sydd wedi'i ddyfarnu i Interserve ar hyn o bryd i ymgymryd â gwaith adeiladu yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful?

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 14.02

Gwnaeth **Elin Jones** ddatganiad am: Millicent Mackenzie - y fenyw gyntaf yng Nghymru i sefyll i'w hethol i San Steffan yn Etholiad Cyffredinol 14 Rhagfyr 1918.

Gwnaeth **Llyr Gruffydd** ddatganiad am: Cydnabod Llangollen fel y gymuned gyntaf yng ngogledd Cymru i sicrhau ei statws fel cymuned ddi-blastig.

Gwnaeth **Dai Lloyd** ddatganiad am: Llywelyn ein Llyw Olaf.

## 4 Dadl: Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol

Dechreuodd yr eitem am 14.07

**NDM6896** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol ddydd Llun 10 Rhagfyr 2018.

2. Yn nodi ei bod yn 70 mlynedd ers mabwysiadu'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y twf mewn mudiadau gwleidyddol sy'n gwrthod egwyddorion y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, a galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei gwaith i fynd i'r afael ag eithafiaeth yn cynnwys mesurau rhagweithiol i atal eithafiaeth asgell dde.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 –** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU yn cydnabod bod yr holl hawliau a nodir yn natganiad y Cenhedloedd Unedig o hawliau dynol yn un mor bwysig â'i gilydd.

Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd o ran rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, amddiffyn rhyddid crefydd neu gred, rhoi terfyn ar anghydraddoldeb a gwahaniaethu, a hyrwyddo democratiaeth.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant sy'n weddill o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 9 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6896** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod Diwrnod Rhyngwladol Hawliau Dynol ddydd Llun 10 Rhagfyr 2018.

2. Yn nodi ei bod yn 70 mlynedd ers mabwysiadu’r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

3. Yn gresynu at y twf mewn mudiadau gwleidyddol sy'n gwrthod egwyddorion y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, a galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei gwaith i fynd i'r afael ag eithafiaeth yn cynnwys mesurau rhagweithiol i atal eithafiaeth asgell dde.

4. Yn nodi bod Llywodraeth y DU yn cydnabod bod yr holl hawliau a nodir yn natganiad y Cenhedloedd Unedig o hawliau dynol yn un mor bwysig â'i gilydd.

5.Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd o ran rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, amddiffyn rhyddid crefydd neu gred, rhoi terfyn ar anghydraddoldeb a gwahaniaethu, a hyrwyddo democratiaeth.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 2 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y’i diwygiwyd.**

## 5 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6899** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 24 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Cyfnod pleidleisio (Busnes y Llywodraeth)

Dechreuodd yr eitem am 15.16

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Atal Gwastraff ac Ailgylchu

Dechreuodd yr eitem am 15.18

**NDM6893** [Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnig ar gyfer Bil ar atal ac ailgylchu gwastraff.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) atal gwastraff drwy osod gofynion ailgylchu ar gynhyrchwyr bwyd a manwerthwyr o ran deunydd pacio a gwastraff deunydd pacio; a

b) cyflwyno cyfrifoldebau estynedig ar y cynhyrchydd i sicrhau bod costau ailgylchu a rheoli gwastraff yn cael eu rhannu yn deg, gyda chynhyrchwyr yn cyfrannu at gost ariannol triniaeth ar ddiwedd bywyd eu cynnyrch.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Cyflog Byw

Dechreuodd yr eitem am 15.47

**NDM6860** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi yr adroddiad gan Ysgol Fusnes Caerdydd, 'The Living Wage Employer Experience'.

2. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan 174 o gyflogwyr ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru i dalu cyflog byw go iawn i'w cyflogeion.

3. yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) nodi'r mesurau i gefnogi mwy o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i fabwysiadu'r cyflog byw go iawn a dod yn gyflogwyr cyflog byw go iawn achrededig; a

b) ystyried cryfhau y Cod ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi mewn perthynas â'r cyflog byw go iawn.

**Cefnogwyr**

David Rees (Aberafan)

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Hefin David (Caerffili)

Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Mick Antoniw (Pontypridd)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Rhianon Passmore (Islwyn)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig - Rhwystrau Carthffosydd

Dechreuodd yr eitem am 16.33

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6898** Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Water UK ar ei astudiaeth ynghylch hancesi gwlyb yn blocio carthffosydd.

2. Yn gresynu at y ffaith y ceir tua 2,000 o rwystrau mewn carthffosydd bob mis ledled Cymru ac yr achosir llawer ohonynt gan bobl yn fflysio eitemau traul fel ffyn cotwm a hancesi gwlyb i lawr y toiled.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gwaith ar gyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig y tu hwnt i fwyd a diod i gynnwys eitemau traul fel hancesi gwlyb a ffyn cotwm.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer profi cynhyrchion fel hancesi gwlyb a ffyn cotwm ar sail rheoleiddiol; ac os bydd cynhyrchion o'r fath yn methu prawf newydd y diwydiant dŵr i weld a ellir eu fflysio, rhaid i gynhyrchwyr becynnu'r cynhyrchion hynny gyda logo clir, trawiadol ac amlwg sy'n nodi na ellir eu fflysio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 59 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru gyda chwmnïau dŵr er mwyn pwyso a mesur opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem lle y mae defnyddiau traul yn achosi i doiledau flocio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 11 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â Dŵr Cymru ac asiantaethau eraill i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran defnyddiau traul er mwyn lleihau rhwystrau yn y system garthffosiaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r posibiliadau o ddefnyddio trethi newydd i leihau'r ddefnydd o defnyddiau traul.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 11 | 4 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6898 Gareth Bennett (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Water UK ar ei astudiaeth ynghylch hancesi gwlyb yn blocio carthffosydd.

2. Yn gresynu at y ffaith y ceir tua 2,000 o rwystrau mewn carthffosydd bob mis ledled Cymru ac yr achosir llawer ohonynt gan bobl yn fflysio eitemau traul fel ffyn cotwm a hancesi gwlyb i lawr y toiled.

3. Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru gyda chwmnïau dŵr er mwyn pwyso a mesur opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem lle y mae defnyddiau traul yn achosi i doiledau flocio.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer profi cynhyrchion fel hancesi gwlyb a ffyn cotwm ar sail rheoleiddiol; ac os bydd cynhyrchion o'r fath yn methu prawf newydd y diwydiant dŵr i weld a ellir eu fflysio, rhaid i gynhyrchwyr becynnu'r cynhyrchion hynny gyda logo clir, trawiadol ac amlwg sy'n nodi na ellir eu fflysio.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â Dŵr Cymru ac asiantaethau eraill i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran defnyddiau traul er mwyn lleihau rhwystrau yn y system garthffosiaeth.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r posibiliadau o ddefnyddio trethi newydd i leihau'r defnydd o ddefnyddiau traul.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 4 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod pleidleisio (Busnes y Cynulliad)

Dechreuodd yr eitem am 17.02

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.05

**NDM6897** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Cyfraith Lucy: yr ymgyrch i wella lles anifeiliaid drwy wahardd gwerthu a bridio cŵn bach a chathod bach gan siopau anifeiliaid anwes a'r holl werthwyr trydydd parti masnachol.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.23

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2019**